# Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

| | | |
|---|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 3 – y Senedd** | |
| Dyddiad: | **Dydd Mawrth, 24 Mehefin 2014** | |
| Amser: | **09.00 – 10.50** | |

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=en_400000_24_06_2014&t=0&l=en

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Cofnodion Cryno:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | **Darren Millar AC (Cadeirydd)**<br>**William Graham AC**<br>**Mike Hedges AC**<br>**Alun Ffred Jones AC**<br>**Julie Morgan AC**<br>**Jenny Rathbone AC**<br>**Aled Roberts AC**<br>**Sandy Mewies AC** |
| Tystion: | **Mike Usher, Swyddfa Archwilio Cymru**<br>**Huw Vaughan Thomas, Archwilydd Cyffredinol Cymru, Swyddfa Archwilio Cymru** |
| Staff y Pwyllgor: | **Meriel Singleton (Ail Clerc)**<br>**Claire Griffiths (Dirprwy Glerc)**<br>**Joanest Jackson (Cynghorydd Cyfreithiol)** |

**TRAWSGRIFIAD**
Gweld trawsgrifiad o'r cyfarfod.

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r Pwyllgor.

## 2 Papurau i'w nodi

2.1 Nodwyd y papurau.

## 3 Adroddiad Blynyddol y Bwrdd Cynghori ar Adroddiadau Ariannol 2013-2014

3.1 Rhoddodd Mike Usher, Arweinydd y Sector ar gyfer Iechyd a Llywodraeth Ganolog yn Swyddfa Archwilio Cymru, sesiwn friffio ar yr adroddiad, a nodwyd gan yr Aelodau.

## 4 Gofal heb ei drefnu: Trafod yr ymateb gan Lywodraeth Cymru

4.1 Nododd yr Aelodau ymateb Llywodraeth Cymru i'r argymhellion yn adroddiad y Pwyllgor ynghyd â'r cyngor gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.
4.2 Cytunodd yr Aelodau y byddai'r Cadeirydd yn ysgrifennu at Lywodraeth Cymru i ofyn am eglurder ynghylch nifer o faterion.

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y canlynol:

5.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 6 Gwasanaeth Awyr oddi mewn i Gymru - Caerdydd i Ynys Môn: Trafod yr adroddiad drafft

6.1 Trafododd yr Aelodau'r adroddiad drafft a nodwyd y byddai drafft diwygiedig ar gael i'w drafod yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 15 Gorffennaf.

## 7 Adroddiad Blynyddol 2013-14

7.1 Trafododd yr Aelodau'r cynnwys ar gyfer yr adroddiad blynyddol a nodwyd y byddai'r clercod yn paratoi drafft i'w drafod yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 15 Gorffennaf.

## 8 Cyflogau Uwch-reolwyr: Y prif faterion

8.1 Trafododd yr Aelodau'r papur a nodwyd y byddai'r clercod yn paratoi adroddiad drafft i'w drafod yn gynnar yn nhymor yr hydref.
8.2 Cytunodd Archwilydd Cyffredinol Cymru i baratoi dogfen yn cymharu'r canllawiau cyflogau ar gyfer sefydliadau'r sector cyhoeddus.

## 9 Gohebiaeth y Pwyllgor - y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

9.1 Trafododd yr Aelodau'r ohebiaeth a chytunwyd i drafod cyfrifon blynyddol Cyngor Celfyddydau Cymru ar gyfer 2013-14 yn nhymor yr hydref.